# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 20 Mehefin 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Chwaraeon, Diwylliant a'r Gymraeg
2 Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Clogyn Aur yr Wyddgrug

**C9 Alison Halford:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Bwrdd Croeso Cymru a'r Amgueddfa Brydeinig ynghylch clogyn aur yr Wyddgrug? (OAQ18399)

**Y Gweinidog dros Chwaraeon, Diwylliant a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Fel yr eglurodd Prif Weinidog Cymru yn yr ateb ysgrifenedig a roddodd i chi'n ddiweddar, gall unrhyw amgueddfa sy'n dymuno benthyg y clogyn aur o'r Amgueddfa Brydeinig drafod y mater yn uniongyrchol â'r Amgueddfa Brydeinig ei hun.

### Archwilio Canolfannau Diwylliannol

**C10 Elin Jones:** Pa waith sydd wedi ei wneud o ran cynnal archwiliad o ganolfannau diwylliannol yng Nghymru, fel y nodwyd yn y strategaeth ddiwylliant, 'Creative Future: Cymru Greadigol'? (OAQ18384)

**Jenny Randerson:** Comisiynodd Cyngor Celfyddydau Cymru archwiliad o ganolfannau'r celfyddydau yn ystod haf 2001 a gaiff ei gyhoeddi ar ei wefan cyn hir. Mae gan Gyngor Chwaraeon Cymru gronfa ddata o adnoddau chwaraeon a bydd yn gweithio gyda chyngor y celfyddydau a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i wireddu dyhead 'Creative Future: Cymru Greadigol' i gynnal archwiliad o ganolfannau diwylliannol.

### Mynediad i Weithiau Celfyddydol

**C11 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba mor hawdd yw hi i'r cyhoedd yng Nghymru gael gweld gweithiau celfyddydol? (OAQ18436)

**Jenny Randerson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi cynyddu niferoedd y cyhoedd a all weld gweithiau celf yng Nghymru drwy gyflwyno mynediad am ddim i'r amgueddfa genedlaethol. Mae mynediad i'r cyhoedd yn rhan allweddol o fy strategaeth ddiwylliannol 'Creative Future: Cymru Greadigol'. Mae cyngor y celfyddydau a'r amgueddfa genedlaethol yn ystyried ffyrdd o gynyddu faint o bobl all weld a gwerthfawrogi celf yng Nghymru.

### Budd Chwaraeon i Bobl Ifanc

**C12 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y budd i bobl ifanc yng Nghymru o gymryd rhan mewn chwaraeon? (OAQ18398)

**Jenny Randerson:** Mae budd mawr i bobl ifanc yng Nghymru o gymryd rhan mewn chwaraeon. Gall wella iechyd, addysg a chydlyniad cymdeithasol yn ogystal a chreu mwynhad a darparu sail ragorol i

ddatblygu sgiliau bywyd megis gwaith tîm, arweinyddiaeth, cyfathrebu rhyngbersonol a dinasyddiaeth dda.

### Hyrwyddo Ieithoedd Lleiafrifol

**C13 Janet Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar gyda Chomisiynydd Ewrop dros Addysg a Diwylliant ynghylch hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol? (OAQ18410)

**Jenny Randerson:** Bûm yng nghwmni'r Comisiynydd Ewropeaidd dros Addysg a Diwylliant, Mme Viviane Reding, yn ystod nifer o'i hymweliadau pan ddaeth i safle Canolfan Mileniwm Cymru ac Eisteddfod yr Urdd, ar 3 Mehefin. Nid oedd yr achlysur yn addas ar gyfer trafod ffurfiol, ond datganodd y comisiynydd yn glir mewn sgyrsiau anffurfiol, ac yn ei haraith ffurfiol yn nerbyniad Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn Eisteddfod yr Urdd, ei bod yn cefnogi ieithoedd lleiafrifol yn frwd. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gweithio ar strategaeth i hyrwyddo dysgu iaith ac amrywiaeth ieithyddol drwy integreiddio cymorth i ieithoedd lleiafrifol i mewn i raglenni'r brif ffrwd. Bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymysg y sefydliadau y bydd y comisiwn yn ymgynghori â hwy wrth iddo lunio ei strategaeth.

### Hyrwyddo'r Theatr Gymraeg

**C14 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hyrwyddo'r theatr Gymraeg? (OAQ18404)

**Jenny Randerson:** Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn galw ar y canolfannau y telir amdanynt drwy gyllid refeniw i ystyried y ddarpariaeth o berfformiadau Cymraeg ar gyfer ei gynulleidfaoedd. Mae'r canolfannau'n awyddus i ddatblygu'r gynulleidfa Gymraeg ond maent wedi canfod diffyg deunydd. Bydd sefydlu cwmni theatr Gymraeg cenedlaethol gyda chyfrifoldeb o gynhyrchu sioeau a fydd yn denu cynulleidfaoedd y brif ffrwd yn ffordd allweddol o fynd i'r afael â hyn. Mae'r cyngor felly yn dyrannu £250,000 i hyn ar gyfer 2002-03. Bydd yr arian hwn yn ariannu dau gynhyrchiad eleni (£100,000 yr un), gyda £50,000 i dalu'r costau cychwynnol i sefydlu cwmni cynhyrchu.

### Arian ar gyfer Ieithoedd Lleiafrifol

**C15 Cynog Dafis:** Yn y cyfarfod diweddar rhwng y Gweinidog a Chomisiynydd Ewrop dros Addysg a Diwylliant, pa drafodaethau a gafwyd ynghylch arian gan yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer ieithoedd lleiafrifol? (OAQ18411)

**Jenny Randerson:** Bûm yng nghwmni'r Comisiynydd Ewropeaidd dros Addysg a Diwylliant, Mme Viviane Reding, yn ystod nifer o'i hymweliadau pan ddaeth i safle Canolfan Mileniwm Cymru ac Eisteddfod yr Urdd, ar 3 Mehefin. Nid oedd yr achlysur yn addas ar gyfer trafod ffurfiol, ond datganodd y comisiynydd yn glir mewn sgyrsiau anffurfiol, ac yn ei araith ffurfiol yn nerbyniad Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn Eisteddfod yr Urdd, ei bod yn cefnogi ieithoedd lleiafrifol yn frwd. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gweithio ar strategaeth i hyrwyddo dysgu iaith ac amrywiaeth ieithyddol, drwy integreiddio cymorth i ieithoedd lleiafrifol i mewn i raglenni'r brif ffrwd. Bydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymysg y sefydliadau y bydd y comisiwn yn ymgynghori â hwy wrth iddo lunio ei strategaeth.

## Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Tramor

### Cynllun Tir Mynydd 2

**C8 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar hynt cynllun Tir Mynydd 2? (OAQ18420)

**Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor (Michael German):** Yr wyf yn gobeithio cyhoeddi papur ymgynghori yn ddiweddarach y mis hwn.

Bydd y papur yn cwmpasu opsiynau gwahanol ar gyfer ffurf Tir Mynydd yn y dyfodol, gan gynnwys parhau â'r cynllun presennol y mae ffermwyr yn gyfarwydd ag ef erbyn hyn.

**Incymau Ffermwyr**

**C9 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar incymau ffermwyr? (OAQ18406)

**Michael German:** Rhoddwyd y wybodaeth hon i chi mewn ateb ysgrifenedig ar 15 Ebrill 2002 (WAQ17016).

Cymerir y data diweddaraf am incymau ffermydd o'r arolwg busnes fferm a gyhoeddwyd ar 1 Chwefror 2002. Mae hwn yn rhagweld twf gweddol fach ar gyfer incymau net ffermydd llaeth a da byw yn 2001-02. Rhagwelir gostyngiadau bychan mewn incwm net ar gyfer y sector gwartheg a defaid.

**Cynllun Ymddeol i Ffermwyr**

**C10 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar ei fwriadau i ddatblygu cynllun ymddeol i ffermwyr? (OAQ18416)

**Michael German:** Nid wyf yn siŵr y byddai cynllun ar gyfer ffermwyr sy'n dymuno ymddeol yn unig yn gost effeithiol nac yn addas. Yr wyf wedi gofyn i swyddogion archwilio dichonoldeb cynllun lle gallai ffermwr sy'n ymddeol sefydlu blwydd-dâl i ariannu pensiwn, a fyddai felly'n galluogi person ifanc i brynu'r fferm dros gyfnod o amser y cytunir arno. Mae nifer o rwystrau i'w goresgyn a materion cyfreithiol cymhleth i'w datrys cyn y gellid cyflwyno cynllun o'r fath.

**Y Cynllun Grant Cefn Gwlad Arfaethedig**

**C11 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y cynllun grant cefn gwlad arfaethedig? (OAQ18417)

**Michael German:** Caiff y posibilrwydd o gynllun grant cefn gwlad ei ystyried yn yr arolwg o gynlluniau amaeth-amgylcheddol a gaiff ei gynnal fel rhan o'r arolwg canol tymor ym mhroses ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredin ac o fewn fframwaith rhaglen Amcan 1.

**Dyfodol Pysgodfeydd Treftadaeth Cymru**

**C12 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol pysgodfeydd treftadaeth Cymru? (OAQ18432)

**Michael German:** Yr wyf yn ymwybodol o'ch pryder penodol am ddyfodol pysgodfa eogiaid Blackrock lle defnyddir rhwydi lampo.

Cydnabu Llywodraeth y Cynulliad bwysigrwydd pysgodfeydd treftadaethol yn ei ymateb ffurfiol i'r arolwg o bysgodfeydd eogiaid a dŵr croyw a sicrhaodd na roddid cyfyngiadau ar bysgodfeydd o'r fath heb ymgynghoriad llawn ac ystyrlon â'r partïon sydd â diddordeb.

**Y Gweithgor ar Gynllun Tir Mynydd 2**

**C13 Cynog Dafis:** A wnaiff roi adroddiad ar hynt gwaith y gweithgor a sefydlwyd i edrych ar gynllun Tir Mynydd 2? (OAQ18422)

**Michael German:** Mae gweithgor Tir Mynydd 2 yn cynnwys swyddogion o fy adran, yr undebau ffermwyr, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a phobl â diddordebau amgylcheddol. Cytunwyd ar ei aelodaeth yn Ionawr, ac mae wedi cwrdd deirgwaith. Mae ei drafodaethau wedi helpu fy swyddogion i ddrafftio dogfen

ymgynghori sy'n disgrifio'r opsiynau gwahanol ar gyfer diwygio cynllun Tir Mynydd, yr wyf yn gobeithio ei gyhoeddi yn ddiweddarach y mis hwn.

Mae cylch gorchwyl y gweithgor hefyd yn cynnwys amlen genedlaethol y premiwm blynyddol defaid. Bu iddynt chwarae ran ddefnyddiol drwy gyfrannu at ddrafftio'r papur ymgynghori ar weithredu amlen genedlaethol y premiwm blynyddol defaid ar gyfer 2003 a thu hwnt, a gyhoeddais ar 10 Mai.

**Polisi Cyfredol y Cynulliad ar Gnydau a Addaswyd yn Enetig yng Nghymru**

**C14 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi cyfredol y Cynulliad ar gnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru? (OAQ18434)

**Michael German:** Polisi'r Cynulliad, fel y'i cyflwynir yn y cytundeb partneriaeth, 'Rhoi Cymru'n Gyntaf', yw gweithredu'r polisi mwyaf rhwystredig posibl o fewn cyd-destun deddfwriaeth yr UE ar ddatblygu cnydau masnachol a addaswyd yn enetig yng Nghymru. Yr ydym hefyd yn ceisio manteisio ar y cyfleodd masnachol o nodi nad yw cynnyrch amaethyddol Cymreig wedi ei addasu'n enetig.

**Codi Proffil Pysgodfeydd Cymru**

**C15 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau y mae wedi'u cymryd i godi proffil pysgodfeydd Cymru? (OAQ18423)

**Michael German:** Mae'r gwaith ar strategaeth pysgodfeydd i Gymru gyfan, y cytunwn ni a'r diwydiant pysgota ei bod yn angenrheidiol i roi canolbwynt ar gyfer datblygu pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol, yn mynd rhagddo'n dda.

Mae dau grŵp, sy'n cynnwys ymarferwyr—y mae Awdurdod Datblygu Cymru'n arwain y naill ac Asiantaeth yr Amgylchedd y llall—yn ystyried pob agwedd ar bysgodfeydd môr masnachol, ffermio dŵr a physgodfeydd hamdden mewndirol. Bydd adroddiadau'r ddau grŵp hyn yn sail i ddogfen strategaeth drawsffiniol, a fydd yn destun ymgynghoriad llawn yn ddiweddarach eleni.